Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru
National
Assembly for
Wales

# HYSBYSIAD YNGHYLCH GWELLIANNAU
# NOTICE OF AMENDMENTS

## Cyflwynwyd ar 15 Hydref 2014
## Tabled on 15 October 2014

## Bil Addysg Uwch (Cymru)
## Higher Education (Wales) Bill

**Huw Lewis** **1**

Section 1, page 2, line 5, leave out 'provision about certain supplementary functions of HEFCW,' and insert 'supplementary provision about functions of HEFCW, including provision'.

Adran 1, tudalen 2, llinell 6, hepgorer 'ynghylch swyddogaethau atodol penodol CCAUC,' a mewnosoder 'atodol ynghylch swyddogaethau CCAUC, gan gynnwys darpariaeth'.

**Huw Lewis** **2**

To insert a new section—

**'( ) Compatibility with charity law and governing documents of institutions**

(1) Nothing in this Act confers power on HEFCW to require the governing body of an institution to do anything that is incompatible with—

(a) any legal obligation or legal restriction that applies to the governing body by virtue of the institution being a charity, or

(b) the governing documents of the institution.

(2) For the purposes of subsection (1)(b), the governing documents of an institution are—

(a) in the case of an institution established by Royal charter—

(i) the institution's charter, and

(ii) any instrument relating to the conduct of the institution the making or amendment of which requires the approval of the Privy Council;

(b) in the case of an institution conducted by a higher education corporation, the corporation's instrument of government and the institution's articles of government;

(c) in the case of an institution conducted by a further education corporation, the corporation's instrument of government and articles of government;

(d) in the case of an institution designated under section 129 of the Education Reform Act 1988 or section 28 of the Further and Higher Education Act 1992, the institution's instrument of government and articles of government;

(e) in the case of an institution not falling within paragraphs (a) to (d) that is conducted by a company, the company's memorandum and articles of association.'.

I fewnosod adran newydd—

**'( ) Cydnawsedd â chyfraith elusennau a dogfennau llywodraethu sefydliadau**

(1) Nid oes dim byd yn y Ddeddf hon yn rhoi pŵer i CCAUC i'w gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu sefydliad wneud unrhyw beth sy'n anghydnaws—

(a) ag unrhyw rwymedigaeth gyfreithiol neu gyfyngiad cyfreithiol sy'n gymwys i'r corff llywodraethu yn rhinwedd bod y sefydliad yn elusen, neu

(b) â dogfennau llywodraethu'r sefydliad.

(2) At ddibenion is-adran (1)(b), dogfennau llywodraethu sefydliad yw—

(a) yn achos sefydliad a sefydlwyd drwy siarter Frenhinol—

(i) siarter y sefydliad, a

(ii) unrhyw offeryn sy'n ymwneud â rhedeg y sefydliad, y mae'n ofynnol cael cymeradwyaeth y Cyfrin Gyngor er mwyn gwneud neu ddiwygio'r offeryn hwnnw;

(b) yn achos sefydliad sy'n cael ei redeg gan gorfforaeth addysg uwch, offeryn llywodraethu'r gorfforaeth ac erthyglau llywodraethu'r sefydliad;

(c) yn achos sefydliad sy'n cael ei redeg gan gorfforaeth addysg bellach, offeryn llywodraethu'r gorfforaeth a'i herthyglau llywodraethu;

(d) yn achos sefydliad a ddynodwyd o dan adran 129 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 neu adran 28 o Ddeddf Addysg Bellach ac Uwch 1992, offeryn llywodraethu'r sefydliad a'i erthyglau llywodraethu;

(e) yn achos sefydliad nad yw'n dod o fewn paragraffau (a) i (d) sy'n cael ei redeg gan gwmni, memorandwm y cwmni a'i erthyglau cymdeithasu.'.

**Huw Lewis** **3**

To insert a new section—

**'( ) Duty to take into account importance of protecting academic freedom**

In exercising functions by virtue of this Act, HEFCW must take into account the

importance of protecting academic freedom including, in particular, the freedom of institutions—

(a) to determine the contents of particular courses and the manner in which they are taught, supervised or assessed,

(b) to determine the criteria for the admission of students and to apply those criteria in particular cases, and

(c) to determine the criteria for the selection and appointment of academic staff and to apply those criteria in particular cases.'.

I fewnosod adran newydd—

**'( ) Dyletswydd i ystyried pwysigrwydd diogelu rhyddid academaidd**

Wrth arfer swyddogaethau yn rhinwedd y Ddeddf hon, rhaid i CCAUC ystyried pwysigrwydd diogelu rhyddid academaidd gan gynnwys, yn benodol, rhyddid sefydliadau—

(a) i benderfynu ar gynnwys cyrsiau penodol a'r dull o'u haddysgu, eu goruchwylio neu eu hasesu,

(b) i benderfynu ar y meini prawf ar gyfer derbyn myfyrwyr ac i gymhwyso'r meini prawf hynny mewn achosion penodol, ac

(c) i benderfynu ar y meini prawf ar gyfer dethol a phenodi staff academaidd ac i gymhwyso'r meini prawf hynny mewn achosion penodol.'.